

Menter Iaith Bangor yn Popdy (Canolfan hybu'r Gymraeg)

1. Sefyllfa bresennol – Tachwedd 2017

Mae'r Rheolwr a Swyddog Datblygu (sydd hefyd yn aelod o staff Hunaniaith) yn gweithio o Popdy ac mae 7 o aelodau staff yr Urdd yn llogi'r ail lawr ac yn talu rhent i Menter Iaith Bangor (MIB.)


Ar Nos Fercher 27^{ain} o Fedi cynhaliwyd gweithdy i drafod y defnydd gorau o adeilad Popdy gyda 17 ym mynychu. Bydd MIB yn ystyried y syniadau ac yn llunio rhaglen waith bwrpasol. Nos Lun 23^{ain} o Hydref cynhaliwyd cyffredinol blynyddol y Fenter (y cyntaf ers ymgorffori fel cwmni cyfyngedig trwy warant) yn Popdy, gydag oddeutu 15 yn bresennol. Ail etholwyd aelodau blaenorol MIB ynghyd â 4 aelod newydd.

2. Llwyddiannau hyd yn hyn

Popdy yn Dathlu

Ar ddydd Sadwrn 14^{eg} o Hydref cynhaliwyd diwrnod 'Popdy yn dathlu' blwyddyn ers agor. Darparwyd arlwy amrywiol i'r cyhoedd.





Cydweithio

Ers rhai misoedd bellach mae MIB yn cydweithio â sawl corff a sefydliad arall megis Pontio (Prifysgol Bangor), Ardal Gwella Busnes Bangor (BID), Cyngor Dinas Bangor, Sefydliad Confucius Bangor (<https://www.bangor.ac.uk/confucius-institute/index.php.cy>), papur bro'r Goriad, Menter Môn a Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd, ynghyd â threfnwyr Carnifal a Cracyr Nadolig y ddinas.

Popdy trafod iaith

Nos Fercher 25^{ain} o Hydref cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres a elwir yn Panel trafod Cymraeg yn y gymuned gyda phanel yn trafod meysydd plant a phobl ifanc, teulu, hamdden a dysgwyr. Daeth tua 35 ynghyd. Cynhelir panel trafod pellach ar 20/11/17 ac wedyn yn fisol gan drafod pynciau perthnasol i Fangor, Gwynedd a Chymru. Targedir cynulleidfaoedd gwahanol i'r sesiynau, yn dibynnu ar y testun trafod.

'Sgwrs a pheint' (Dysgwyr)

Ers Nos Fercher 18^{ed} o Hydref mae criw o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg fel iaith gyntaf wedi dod ynghyd i gynnal nosweithiau 'Sgwrs a pheint' yn nhafarn Yr Harp, Bangor – er mwyn i'r dysgwyr gael cyfle i ymarfer eu Cymraeg yn gymdeithasol gyda'i gilydd a gyda siaradwyr brodorol. Aelod o MIB sydd wedi trefnu'r sesiynau sydd wedi denu oddeutu 18 hyd yma.

Gwirfoddoli/ Profiad Gwaith

Ers rhai misoedd mae gwirfoddolwr yn cynorthwyo MIB yn Popdy gyda gwerthuso a chynllunio prosiect penodol hefo detholiad o ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Tryfan. Yn ogystal mae disgybl Chweched yn gwneud ei 'Her Cymunedol' BAC hefo ni ac yn cael profiad ymarferol o waith MIB a Hunaniaith.

Gweithdy gofal iechyd cychwynnol – Y Cynnig Rhagweithiol

Unwaith eto eleni mae MIB yn targedu'r sector uchod ym Mangor, Bethesda a'r Felinheli trwy waith comisiwn prosiect a gweithdy nos Fercher 29^{ain} o Dachwedd yn Popdy.

Adloniant

Ar Nos Iau 9^{fed} o Dachwedd cynhaliwyd gig comedi ar y cyd rhwng MIB ac Undeb Myfyrwyr Coleg Bangor yn Blue Sky. Gwerthwyd yr holl docynnau!

Ar nos Wener 24^{ain} o Dachwedd trefnir gig Popdy Chill i ddisgyblion Chweched Ysgolion Bangor a Choleg Menai. Y nod yw darparu arlwy Cymraeg mewn awyrgylch braf i bobl ifanc allu cymdeithasu'n Gymraeg. Os yn llwyddiannus bwriedir cynnal sesiynau rheolaidd dan ofal y to ifanc gan obeithio creu naws mai dyma gyrchfan iddyn' nhw.

Ar nos Wener 27^{ain} o Ionawr 2018 bydd MIB yn cynnal gig mawr Crys a Maffia Mr Huws yn Pontio, Bangor.

Rydym hefyd y parhau i logi'r ail lawr allan i wahanol grwpiau ar gyfer defnydd sy'n gydnaws â'n nod a'n cenhadaeth ieithyddol, e.e. sesiynau yoga, sesiwn chwarae i blant a addysgir gartref, gweithdy Busnes Cymru ac aelwyd yr Urdd Bangor.

3. Heriau'r dyfodol

Gellir crynhoi heriau'r dyfodol fel a ganlyn:

- Codi proffil/ ymwybyddiaeth MIB ymhlith trigolion Bangor a thu hwnt. Rydym eisoes yn ceisio cynyddu niferoedd dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.
- Denu cynulleidfaoedd i weithgareddau ac arlwy MIB.
- Denu gwirfoddolwyr pellach.
- Meithrin dulliau monitro pwrpasol i fesur effaith MIB.